



At bob Prif Swyddog Cynllunio

Copiâu at: Swyddogion Cynlluniau
Datblygu Awdurdodau Cynllunio Lleol,
Cadw, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymorth
Cynllunio Cymru, Arolygaeth Gynllunio
Cymru, Cymdeithas Swyddogion
Cynllunio Cymru, Y Sefydliad Cynllunio
Trefol Brenhinol yng Nghymru,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

8 Gorffennaf 2013

Annwyl Gyfaill

CYNLLUNIAU DATBLYGU LLEOL: SAFLEOEDD AMGEN

**[Sylwadau Dyrannu Safleoedd – Rheoliad 20 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref
(Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005]**

Gellir cynnwys dyraniadau safleoedd mewn cynllun mabwysiedig ar yr amod bod yr Arolygydd yn fodlon bod yr awdurdod cynllunio lleol wedi dilyn y profion gweithdrefnol priodol, gan gynnwys eglurder ei hysbysiadau statudol a gofynion gwerthuso cynaliadwyedd (gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol).

Dylid ystyried y cyngor hwn wrth ochr y canllawiau presennol ar y cam safleoedd amgen ym mharagraff 4.26 Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru 2005, paragraffau 7.5.2 a 8.4.4 ac Atodiad D Hysbysiad Enghreifftiol 3 y Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol 2006, a, llythyron egluro CL-01-2010 a CL-01-2011.

(Dolen at y canllawiau: <http://wales.gov.uk/topics/planning/development-plans/localdevelopmentplans/?lang=cy>.)

Yn y lle cyntaf, rwyf am dynnu eich sylw at yr angen am eglurder wrth hysbysebu sylwadau dyrannu safleoedd. Mae paragraff 4 Hysbysiad Enghreifftiol 3 diwygiedig (Hysbysiad o Sylwadau Dyrannu Safle ar Gynllun Datblygu Lleol) ar hyn o bryd yn dweud 'Nid yw'r atodlen sylwadau yn adlewyrchu safbwyntiau'r Awdurdod Cynllunio Lleol ei hun'. Fodd bynnag, gall y sefyllfa hon newid wrth i'r Cynllun Datblygu Lleol symud ymlaen i gael ei fabwysiadu. Efallai y bydd yr Arolygydd sy'n archwilio yn dymuno cyflwyno safle amgen (newydd neu wedi'i addasu) i'r Cynllun Datblygu Lleol; fel rheol pan fo tystiolaeth na all y dyraniadau Cynllun Datblygu Lleol arfaethedig fodloni'r angen y mae tystiolaeth ohono, ac ar argymhelliad yr awdurdod wrth i'r gwrandawiadau archwilio fynd yn eu blaen.

Er mwyn sicrhau hyn, rhaid i arolygydd archwilio'r Cynllun Datblygu Lleol fod yn hyderus fod pawb sydd wedi'i effeithio gan y newid posib hwn i'r Cynllun Adneuo wedi cael cyfle i wneud sylwadau a lleisio'u barn. Felly mae'n hanfodol i awdurdod cynllunio lleol sicrhau bod unrhyw un sy'n darllen ei hysbysiadau Rheoliad 20(2) yn deall fod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r cyfnod ymgynghori hwn i gyflwyno sylwadau ffurfiol, gan na fydd cyfle o

reidrwydd yn ddiweddarach pe bai'r awdurdod neu'r Arolygydd yn dymuno cynnwys y safle amgen (newydd neu wedi'i addasu) yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Cynghorir awdurdodau cynllunio lleol i gynnwys y newidiadau canlynol (a ddangosir mewn llythrennau italig) i baragraff 4 Hysbysiad Enghreifftiol 3 'Hysbysiad o Sylwadau Dyrannu Safle ar Gynllun Datblygu Lleol':


*"Nid yw'r atodlen sylwadau yn adlewyrchu safbwyntiau **presennol** yr Awdurdod Cynllunio Lleol ei hun. Nid yw wedi penderfynu eto a yw o blaid unrhyw rai o'r newidiadau awgrymedig hyn. Mae pa un a gaiff y CDLI adneuo ei newid **o bosib** yn fater i Arolygydd annibynnol benderfynu arno **yn y pen draw**. Dylid anfon sylwadau (gan gynnwys y rhai ar ffurf gwrthwynebiadau) o ran sylwadau dyrannu safleoedd yn ysgrifenedig at (7) neu dylid eu hanfon ar-lein i (8) cyn (9). **Mae angen cyflwyno sylwadau i'r Awdurdod Cynllunio Lleol nawr oherwydd, er nad yw'r safle newydd neu wedi'i addasu yn cael ei hyrwyddo fel rhan o'r CDLI ar hyn o bryd, mae'n bosibl y bydd y dyraniad yn cael ei ystyried yn angenrheidiol gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol neu'r Arolygydd yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod modd i'r cynllun gael ei ganfod yn 'gadarn'.**"*

Mae'r Porth Cynllunio yn cynnwys ffurflen enghreifftiol ar gyfer y cam 'safleoedd amgen' a baratowyd gan Arolygiaeth Gynllunio Cymru â mewnbwn gan Cymorth Cynllunio Cymru; bydd y ffurflen yn cael ei haddasu i adlewyrchu'r cyngor hwn. (Dolen at ffurflenni enghreifftiol: <http://www.planningportal.gov.uk/planning/planningsystem/localplans#form>)

Yn ail, mae'n hanfodol fod yr awdurdod yn sicrhau fod **effaith gronol** unrhyw safle(oedd) y mae'n argymhell eu cynnwys yn y cynllun, gan gynnwys Newidiadau â Ffocws ac mewn ymateb i sesiynau gwrandawiadau'r archwiliad, yn cael ei ystyried drwy arfarniad o gynaliadwyedd / Aseiad Amgylcheddol Strategol.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â'r Gangen Cynlluniau (029 2082 6956).

Yn gywir



ROSEMARY THOMAS

**Prif Gynllunydd/Dirprwy Gyfarwyddwr Is-adran Gynllunio
Yr Adran Tai ac Adfywio**